

Cynghrair Polisi Bwyd Cymru: Ein Blaenoriaethau ar gyfer System Fwyd sy'n addas ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae Cynghrair Polisi Bwyd Cymru yn gyfuniad o sefydliadau a rhanddeiliaid sy'n meithrin ac yn hyrwyddo gweledigaeth gyfunol ar gyfer system fwyd Cymru. Mae'r gynghrair yn cynnwys **WWF Cymru, RSPB Cymru, Synnwyr Bwyd Cymru, Fferm Slade, Cynghrair Gweithwyr y Tir, Comisiwn Bwyd, Ffermio a Chefn Gwlad, Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur, Sustainable Food Places, Sefydliad Ymchwil Mannau Cynaliadwy Prifysgol Caerdydd, Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol, Urban Agriculture Consortium** ac **Oxfam Cymru**.

Comisiwn System Fwyd

Credai Cynghair Polisi Bwyd Cymru y dylai Llywodraeth Cymru benodi Comisiwn System Fwyd annibynnol, traws-sector. Dylai'r comisiwn fod yn gyfrifol am ddatblygu rhaglen fapio i gyflenwi 'System Fwyd sy'n addas ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol', sy'n gweddu i egwyddorion amaethecoleg. Dylai'r rhaglen fapio ystyried y chwe phrif flaenoriaeth ganlynol:

1

Bwyd i bawb

Cymru fydd y genedl gyntaf i ddileu'r angen ar gyfer banciau bwyd erbyn 2025. Bydd gan bawb yng Nghymru fynediad at y bwyd sydd ei angen arnynt mewn ffordd urddasol, er mwyn byw bywyd iach.

2

Bwyd er budd iechyd y cyhoedd

Cynhyrchir 75% o'r llysiau a argymhellir gan Eatwell mewn ffordd gynaliadwy yng Nghymru ar gyfer Cymru erbyn 2030.

3

System fwyd sero net

Datblygu cynllun erbyn 2022 i gyflenwi system fwyd sero net i sicrhau asesu a gweithredu camau cyflym ar gyfer Cymru. Y targed yw i Gymru gael System Fwyd Sero Net erbyn 2035.

4

Ffermio er budd natur a'r hinsawdd

Llunio rhaglen fapio erbyn 2022 i fabwysiadu egwyddorion amaethecolegol ar draws yr holl system fwyd gan gynnwys 100% o gynhyrchiant amaethecolegol erbyn 2030 ar bob fferm, er mwyn atal a gwyrdroi'r natur a gollir ac i gynyddu cydnerthedd o safbwynt yr hinsawdd.

5

Bwyd môr cynaliadwy

Gosod cyfyngiadau dalfeydd (heb unrhyw oedi pellach) sy'n galluogi adfer a chynnal stociau pysgod uwchben lefelau biomas sy'n arwain at Uchafswm Cnwd Cynaliadwy.

6

Swyddi a bywoliaethau cynaliadwy yn y sector bwyd

Bydd pawb sy'n ennill bywoliaeth yn y system fwyd yn derbyn, neu'n gallu derbyn, o leiaf cyflog byw neu gyflog teg am eu gwaith. Bydd y gwaith, boed ar y tir neu'r môr, yn rhydd rhag arferion o gamddefnyddio, ac yn amrywiol, yn ddiddorol ac yn rymusol.

Ein Blaenoriaethau ar gyfer System Fwyd priodol ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae'r ddogfen hon yn cyfleu ein gweledigaeth gyfunol o ran datblygu system sy'n unigryw i Gymru ac yn addas ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'n gyfnod hanfodol inni adeiladu ar gyfer y dyfodol, ac mae pandemig COVID-19 wedi ategu bregusrwydd ein system fwyd presennol. Mae wedi tynnu sylw at y cysylltiad agos rhwng iechyd natur a dynoliaeth ar lefel fyd eang. Mae ailadeiladu system fwyd mwy cydnerth a chynaliadwy'n rhan hanfodol er mwyn atal argyfyngau yn y dyfodol, ac yn un o brif elfennau ein llwybr tuag at adferiad "gwyrdd a chyfiawn".

Mae bwyd yn un o hanfodion sylfaenol bywyd, ac yn hollbwysig o ran cael bywyd da - a dyna'r rheswm mae'n cael ei gydnabod fel rhan o'r economi cychwyniadol. Fodd bynnag, mae'r dull cyfredol o gynhyrchu a defnyddio bwyd yn cyfrannu at y dirywiad mewn bioamrywiaeth a newid yn yr hinsawdd, mae'n achosi problemau iechyd sy'n gysylltiedig â'n diet ac wedi arwain at ddibyniaeth ar fanciau bwyd a chaledi ariannol i lawer o ffermwyr. Tynnwyd sylw at y problemau hyn yn adroddiad diweddar WWF Cymru [System Fwyd yng Nghymru sy'n Addas i Genedlaethau'r Dyfodol](#) a dogfen Comisiwn Bwyd, Ffermio a Chefn Gwlad [Canllaw Maes Cymru ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol](#).

Credwn y dylai pawb yng Nghymru gael mynediad ag urddas, i ddigon o fwyd maethlon, a gynhyrchir mewn ffordd gynaliadwy, trwy'r amser. Hefyd, dylwn fod yn gallu sicrhau incwm teg ar gyfer ffermwyr ac holl weithwyr y sector fwyd. Gall ein system fwyd wneud cyfraniad sylweddol i ffyniant cyffredinol Cymru, os caiff ei siapio trwy lygaidd economeg llesiant (gan ystyried ansawdd bywyd yn hytrach na chyfradd twf cynnyrch domestig gros y wlad) ac egwyddorion economi cylchol a chychwyniadol. Byddai gweledigaeth gyffredin

Wrth sôn am y system fwyd, rydym yn golygu: yr holl actorion a chysylltiadau sy'n rhan o dyfu, cynhyrchu, gweithgynhyrchu, cyflenwi a defnyddio bwyd. Mae'n cynnwys amaethyddiaeth, pysgodfeydd, gweithgynhyrchu bwyd, manwerthu, gwasanaethau bwyd, defnydd a gwastraff. Mae'n cynnwys ysgogwyr cymdeithasol ac economaidd dewisiadau a dynameg o fewn y system, ac yn torri ar draws pob graddfa ac agwedd ar bolisi, gan gynnwys yr economi, yr amgylchedd, busnes, addysg, lles, iechyd, trafnidiaeth, masnachu, cynllunio a llywodraeth leol.

Cynghrair Polisi Bwyd Cymru

“Agroecology is based on applying ecological principles to optimize the relationships between plants, animals, humans and the environment, as well as strengthening the aspects of a sustainable and fair food system.

Through building these relationships, agroecology supports food production, food security and nutrition, while restoring the ecosystems and biodiversity that are essential for sustainable agriculture. Agroecology can play an important role in adapting to climate change.

Agroecology is grounded in place-specific design and organization, of crops, livestock, farms and landscapes, conserving cultural and knowledge diversity, with a focus on women’s and young people’s roles in agriculture.

To harness all the benefits from adopting agroecological approaches, the right conditions are required, adapting policies, public investments, institutions and research priorities. Agroecology is the basis for growing food systems that are equally strong in environmental, economic, social and agronomic dimensions.”

Adapted from UN FAO 2019

Ffig 1 – Diffiniad o Amaethecoleg, a addaswyd o SBA y CU 2019

ar draws HOLL adrannau'r Llywodraeth, ynghyd â rhanddeiliaid ehangach y system fwyd, yn sicrhau y caiff holl agweddau ar y system fwyd eu hystyried a'u hintegreiddio. Dyma un o nodau sylfaenol [Sefydliad Bwyd ag Amaeth \(SBA\) y Cenhedloedd Unedig \(CU\)](#) wrth ddiffinio Amaethecoleg, ac un o'i brif egwyddorion yw'r angen ar gyfer llywodraeth gyfrifol ar raddfeydd gwahanol. Dyna'r rheswm dros ein prif argymhelliad sy'n galw am sefydlu **Comisiwn System Fwyd**. Dylai'r comisiwn gynrychioli'r holl randdeiliaid ar draws holl agweddau ar ein system fwyd, gan gynnwys dinasyddion, a dylai cydweithio i ddatblygu rhaglen fapio ar gyfer 'System Fwyd sy'n Addas ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol', gan ystyried egwyddorion cyffredin amaethecoleg (gweler Ffigur 1).

Gan fod y system fwyd yn gyfundrefn eang, cymhleth a rhyngddibynnol i raddau helaeth, rydym yn nodi chwe phrif ddeiliant mesuradwy y dylai Llywodraeth Cymru ynghyd â'r **Comisiwn System Fwyd** eu blaenoriaethu. Maent yn sylfaenol wrth ystyried sut i ddatblygu system fwyd a ffermio blaengar. Dylai'r **Comisiwn System Fwyd** flaenoriaethu **Bwyd i bawb, Bwyd er budd iechyd y cyhoedd, System fwyd sero net, Ffermio er budd natur a'r hinsawdd, Bwyd y môr cynaliadwy a swyddi a bywoliaethau cynaliadwy yn y sector bwyd.**

Blociau Adeiladu System Fwyd

Dyma'r prif arfau y credwn y dylai'r Llywodraeth eu defnyddio i wireddu newid

Rydym yn cydnabod nad yw'n bosib crynhoi cymhlethdod y system fwyd mewn chwe deilliant. Felly, rydym yn cyflwyno "blociau adeiladu" ynghyd ag astudiaethau achos i greu cronfa o syniadau o ran sut gall y deilliannau hyn greu system fwyd sy'n cyflawni ar ran pobl a'r blaned, trwy adfer natur, mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, cefnogi bywoliaethau, addysg a thrwy ddarparu bwyd iach fforddiadwy i bawb.

Integreiddio

Sicrhau integreiddio polisiâu cynhyrchu, cyflenwi a defnydd effeithiol ar draws y Llywodraeth (lleol a chenedlaethol) i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd ac ecolegol, yr argyfwng ym myd iechyd cyhoeddus, a'r cynnydd mewn diffyg sicrwydd o safbwynt bwyd. Ymhlith enghreifftiau mae cynlluniau cefnogi ffermio sy'n cynnal ac yn cyfoethogi natur a'r amgylchedd, ac yn tyfu mwy o fwyd iachus yn agos at y cwsmeriaid; caffael bwyd cyhoeddus cynaliadwy a gynhyrchir yng Nghymru ar gyfer prydau ysgol; partneriaethau bwyd lleol traws-sector i sicrhau fod bwyd yn flaenoriaeth strategol; a sicrhau y caiff cost diet iachus ei adlewyrchu yn yr adolygiad o gyfraddau budd-daliadau yn 2021.

Gorfodi

Sicrhau dulliau gorfodi effeithiol o ran deddfwriaeth, dyletswyddau a pholisiau presennol; ymhlith enghreifftiau mae Mesur Hawliau'r Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016, Deddf Lles Anifeiliaid 2006, dyletswydd Economaidd-gymdeithasol sydd ar y gweill a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Atebolrwydd

Dylai llywodraeth genedlaethol a lleol gosod, monitro a rhannu targedau clir a ddatblygwyd trwy ymgysylltu â dinasyddion a rhanddeiliaid, ac sy'n cael eu hadrodd mewn ffordd dryloyw. Er enghraifft, gellir cyflawni hyn drwy gyflenwi adran 6 [Deddf Amgylchedd \(Cymru\) 2016](#) sy'n nodi fod gan awdurdodau cyhoeddus ddyletswydd i gynnal a chyfoethogi bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau.

Archwilio

Cynnal dadansoddiadau cynhwysfawr o ddeddfwriaeth, polisi, seilwaith, tir a bylchau mewn sgiliau ar lefelau lleol a chenedlaethol i gyd-fynd â gwireddu anghenion maethol y boblogaeth, a chapasiti cynhyrchu. Er enghraifft, cadarnhau pa gyfran o'r gofynion llysiau sy'n synhwyrol ei gynhyrchu ar lefel leol gan ystyried y tir sydd ar gael a pha sgiliau ychwanegol a'r seilwaith sydd ei angen i'w cynhyrchu mewn ffordd gynaliadwy.

Cynghrair Polisi Bwyd Cymru

Buddsoddi

Buddsoddi mewn seilwaith bwyd a chymunedau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Ymhlith esiamplau mae: cynlluniau buddsoddi mewn amaethyddiaeth i dalu gwir gostau ffermio cynaliadwy a chefnogi ffermwyr i bontio, mewn economi gwledig sy'n ffynnu; grantiau cyfalaf i gefnogi seilwaith cadwyn gyflenwi fer (e.e. hybiau bwyd, garddwriaeth ar raddfa fach); buddsoddi mewn pobl i ddatblygu sylfaen sgiliau ffermio amaethecolegol a sgiliau cynhyrchu bwyd; a darparu bwyd iachus cyhoeddus ar gyfer ysgolion, ysbytai a sefydliadau allweddol eraill (e.e. Food for Life Cymru).

Addysg


Trwy ein system addysg a thrwy ymgysylltu â'r gymuned, creu cenedl o ddinasyddion bwyd da, gyda'r wybodaeth a'r sgiliau i dyfu, prynu, coginio a bwyta diet iachus a chynaliadwy, ac sy'n cael cyfle i ddatblygu sgiliau i weithio yn y system fwyd. Ymhlith esiamplau mae integreiddio sgiliau bwyd yn y Cwricwlwm Cenedlaethol ar bob lefel, ymwreiddio'r Rhaglen Sgiliau Maeth am Fwyd ar draws cymunedau, ac ehangu cynlluniau prentisiaethau ar gyfer y sector bwyd a diod.

Arloesi

Dylid defnyddio dulliau gwaith arloesol a thechnoleg newydd ar draws yr holl system fwyd. Er enghraifft, trwy ymchwil dan arweiniad ffermwyr sy'n gweddu i amaethecoleg. Defnyddio arloesedd i ddatblygu atebion; cael hyd i ffyrdd arloesol i gael hyd i bobl sy'n ysgogi dosbarthu adnoddau mewn ffordd fwy cydradd; datblygu modelau busnes, adfywio pridd, gwella lles anifeiliaid, adfer natur, datblygu technegau dal carbon, defnyddio technoleg briodol, cael gwared ar wastraff a rhannu gwybodaeth trwy rwydweithiau cydweithwyr.

Cyfrifoldeb byd-eang

Sicrhau nad yw penderfyniadau polisi a wneir adref yn cael effaith negyddol ar bobl neu leoliadau tramor. Er enghraifft, trwy ddatblygu ein statws fel Cenedl Masnach Deg Cymru, dileu cyfraniad Cymru at gost gudd camddefnyddio gweithwyr ar draws cadwyni cyflenwi bwyd byd eang yr archfarchnadoedd, a sicrhau bod cadwyni cyflenwad bwyd Cymru'n rhydd o ddulliau datgoedwigo.



Astudiaethau Achos

Bwyd i Bawb: Ein plant

Mae gan Llywodraeth Cymru ddyletswydd i sicrhau bod pob plentyn yn derbyn ei fwyd yn unol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (Erthygl 27). Fodd bynnag, yn ôl [Y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant \(2020\)](#) amcangyfrifir nad oedd 70,000 o'r 128,000 o blant oedran ysgol oedd mewn tlodi yng Nghymru yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn Ionawr 2020. Mewn dosbarth o 25 disgybl, bydd saith mewn tlodi, ac ni fydd pedwar ohonynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Disgwylir y bydd nifer y bobl ddi-waith yn cynyddu, ac mae'n debyg y bydd Brexit yn arwain at gynydd mewn prisiau bwyd a heriau o ran cyflenwi, yn enwedig gyda ffrwythau a llysiau ffres. Mae yna berygl y bydd banciau bwyd yn cael eu sefydladu, gan ehangu ymhellach yr anghydraddoldeb trwy greu system fwyd dwy haen: y sawl sy'n gallu fforddio bwydo eu teuluoedd, a'r rhai sy'n methu.



Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cymryd tri phrif gam:

- **Atebolrwydd** ar lefel awdurdodau lleol er mwyn mesur, monitro ac adrodd ar ddiffyg diogelwch bwyd* a sicrhau bod strategaethau'n bodoli i liniaru yn erbyn hyn, fel rhan o'u dyletswydd economaidd-gymdeithasol. Gellir hwyluso hyn drwy fuddsoddi mewn partneriaethau bwyd traws-sector lleol megis [Bwyd Caerdydd](#) oedd yn gyfrifol am gydlynw'r [ymateb bwyd i Covid-19](#) ar draws y ddinas.
- Dylid datblygu system budd-daliadau digonol a chymorth brys ar draws bywyd sy'n delio gyda chost diet iachus. Yn benodol, cynyddu cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim i bob plentyn lle mae'r rhieni'n derbyn y Credyd Cynhwysol (neu fudd-dal tebyg) ac ehangu'r rhaglen i'r sawl heb fynediad at gronfeydd cyhoeddus. Hefyd dylai Llywodraeth Cymru ehangu Rhaglen Cyfoethogi'r Gwyliau Ysgol.
- Digon o incwm i deuluoedd trwy waith teg - dylai Llywodraeth Cymru **gorfodi** argymhellion y [Comisiwn Gwaith Teg](#), megis defnyddio Contract Economaidd i sicrhau fod cyllid cyhoeddus yn mynd yn unig i gyflogwyr sy'n cefnogi Cyflog Byw i Gymru.

*Diffyg diogelwch bwyd = pan fydd unigolyn neu gartref heb ddigon o fynediad neu ddiffyg mynediad diogel at fwyd oherwydd cyfyngiadau o ran adnoddau. Dylid mesur diffyg diogelwch bwyd yn unol â safonau cydnabyddedig ([USDA Food Insecurity Module](#))

Bwyd er budd lechyd y Cyhoedd: Integreiddio strategaethau cynhyrchu a defnydd

Ar hyn o bryd, mae Cymru ond yn cynhyrchu un chwarter o ddogn llysiau fesul pen y boblogaeth ar 0.1% o'r tir (Tyfu Cymru a Wheeler 2020). Yn y cyfamser, mae llai na thraean o'r glasoed yng Nghymru yn nodi eu bod yn bwyta dogn llysiau unwaith y dydd ([lechyd Cyhoeddus Cymru 2019](#)).



Credit: © Martin Harvey / WWF

Mae [Rheoliadau Bwyta'n lach mewn Ysgolion \(Safonau a Gofynion Maeth\) \(Cymru\)2013](#), sydd i fod i gael eu hadolygu, yn cynnwys dim ond un dogn llysiau ar gyfer plant ysgol gynradd, a dau ddogn ar gyfer plant ysgol uwchradd. Mae diffyg monitro a diffyg **gorfodaeth** yn golygu bod llawer o blant yn cael llawer llai o lysiau [er gwaethaf galwadau](#) y dylai eu prif brydau gynnwys o leiaf dau ddogn.

Gallai darparu prydau ysgol am ddim yng Nghymru greu cynnydd o 44%* mewn cynhyrchiant garddwriaethol domestig pe caiff safonau bwyd ysgolion eu diwygio i gynnwys dau ddogn ym mhob pryd amser cinio. Byddai angen **gorfodi** ac **integreiddio**’r safonau hyn i bolisiau caffael er mwyn sicrhau bod y llysiau’n cael eu tyfu’n lleol neu ar lefel ranbarthol yng Nghymru.

Mae’r uchelgais hwn yn realistig ar ôl adnabod [13 o rywogaethau llysiau a dyfir ym Mhrydain](#) fyddai’n gallu cynyddu eu cynhyrchiant. Byddai hyn hefyd yn golygu llai o bwysau ar lefel fyd-eang i fewnforio o wledydd gyda heriau o safbwynt yr hinsawdd. I alluogi hyn, byddai angen cynnal **archwiliad** o’r seilwaith, tir a sgiliau ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol i fodloni anghenion bwyd ysgolion, a byddai angen **buddsoddiad** priodol wedyn. Gall y dull hwn o weithio creu rhyw 77 o swyddi amaetholegol graddfa fawr neu >500 o swyddi raddfa fach / amaetholegol** a chreu allbwn ariannol ar gyfer y sector garddwriaethol o >£3.8m yn ogystal â helpu lliniaru yn erbyn y cynnydd potensial mewn prisiau, a phroblemau cyflenwi oherwydd Brexit.

* Seilir ar ddata CYBLD Ionawr 2020 ac ar y sail na phrynir unrhyw lysiau lleol ar hyn o bryd

** Nifer y swyddi a grëwyd fesul 0.26 swydd/hectar (ar raddfa fawr), Nifer y swyddi a grëwyd fesul 2 swydd/hectar ar raddfa fach)

System fwyd sero net: taith i wireddu System Fwyd Sero Net erbyn 2035

Mae risg i'n system fwyd oherwydd y newid yn yr hinsawdd. Mae hefyd yn cyfrannu'n uniongyrchol at newid yn yr hinsawdd, wrth i amaethyddiaeth gyfrannu tua [12% o gyfanswm allyriadau nwyon tŷ gwydr Cymru](#). Yn seiliedig ar ddata'r DU, mae allyriadau gweithgynhyrchu bwyd, trafnidiaeth a manwerthu'n gyfrifol am [5.5% arall](#). Er hynny, ein tir yw ein hamddiffynfa naturiol fwyaf yn erbyn newid yn yr hinsawdd.

Trwy lunio a gweithredu cynllun sero net, gall Cymru fod ar y rheng flaen o ran pontio i system fwyd sy'n gyfeillgar i'r hinsawdd a natur, ar lefel fyd-eang. Yn ganolog i'r cynllun, byddai pontio i Gymru amaethcolegol. Gall y dull hwn o weithio a seilir ar lefelau carbon isel ysgogi [atebion a seilir ar natur mewn perthynas â'r hinsawdd](#) sy'n defnyddio grym natur i ddal a storio carbon, lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr – amaethgoedwigaeth, adfer mawndir neu adfer glaswelltiroedd gyda chyfoeth o rywogaethau, a mynd i'r afael â **chyfrifoldeb byd-eang** Cymru. Bydd angen prosesau gorfodi cadarn ar gyfer y pontio a seilir ar waelodlin reoleiddiol uchel, gwella'r trefniadau **archwilio** ar gyfer allyriadau ffermydd a graddfeydd dal a storio carbon, **addysg** (cyngor ac arweiniad) a hyfforddiant i sbarduno rheolaeth briodol a **buddsoddiad** mewn cynhyrchwyr bwyd.



Credit: © Ueslei Marcelino/ Reuters/ WWF-UK

Un o'r ymrwymïadau allweddol o ran **chyfrifoldeb byd-eang** fyddai dileu cynnyrch sy'n cael ei fewnforio i Gymru ac sy'n achosi niwed sylweddol i'r amgylchedd, megis datgoedwigo sy'n gysylltiedig â chynhyrchu blawd soi ac olew palmwydd.

Byddai pontio i amaethcoleg yn edrych tu hwnt i gynhyrchu bwyd yn unig, ac yn ystyried y system fwyd at ei gilydd trwy fynd i'r afael â defnydd o fwyd, hyrwyddo diet iachus a chynaliadwy, a lleihau gwastraff bwyd.

Mae angen dull o weithio sy'n **integreiddio** cynhyrchiant a defnydd yn well yng Nghymru, ac yn rhoi mwy o bwyslais ar economi cychwyniadol a chylchol, ailgysylltu pobl â bwyd a gynhyrchir yn lleol a galluogi ymatebion a ddatblygir ar lefel gymunedol sydd yn y pen draw yn gallu creu system fwyd cynaliadwy. Gall Cymru ddangos y ffordd i'r byd o safbwynt diogelu bywoliaethau gwledig, cyfoethogi bioamrywiaeth a thorri allyriadau'n gyflym.

Ffermio er budd natur a'r hinsawdd

[Mae un o bob chwech o rywogaethau bywyd gwyllt](#) Cymru mewn perygl o ddiflannu (gyda defnydd anghynaliadwy o dir, gan gynnwys pwysau amaethyddol, yn brif achos colli bioamrywiaeth), ac [nid oes gan yr un o'n hecosystemau yr holl rinweddau angenrheidiol o safbwynt bod yn gydnherth](#). Gyda dros 80% o dir Cymru'n cael ei



ddefnyddio ar gyfer amaethyddiaeth, gall prif ffrydio systemau ffermio amaethecolegol chwarae rhan hollbwysig o ran gwyrddroi'r dirywiad mewn natur. Mewn rhai ardaloedd, efallai y byddwn am gymryd tir allan o gynhyrchiant er mwyn creu gofod ar gyfer natur a datrysiadau ar gyfer newid hinsawdd wedi'u selio ar natur, gan wella cynderthedd y tirwedd. Mae pob fferm yn wahanol. Trwy ganolbwyntio ar amaethecoleg, byddai Llywodraeth Cymru a ffermwyr yn ymrwymo i gael hyd i a darparu buddion amgylcheddol a chymdeithasol ar lefel sy'n berthnasol i bob ardal leol.

Mae Fferm deuluol gymysg organig [Slade Farm Organics](#) yn Ne Cymru yn enghraifft wych o'r dull hwn. Mae dulliau gwaith amaethecolegol y fferm yn ffafrio defnyddio prosesau naturiol, yn cyfyngu defnydd o fewnbynnau a brynir ac yn hyrwyddo cylchoedd caeëdig. Trwy gydol y flwyddyn, maent yn rheoli'r tir i gyd-fynd â natur a'r amgylchedd, gan arfer egwyddor [Gwneud mwy o Lai](#). Yn ogystal â chynhyrchu bwyd uchel ei ansawdd, cynaliadwy, mae'r fferm hefyd yn darparu gwasanaethau ecosystemau gwerthfawr.

Mae'r fferm wedi cofrestru ar gynllun amaeth-amgylcheddol Glastir, sydd yn ffrwd incwm pwysig sydd wedi helpu natur i ffynnu. Dylai **buddsoddiad** hirdymor trwy Bolisi Amaeth Newydd i Gymru, sy'n canolbwyntio ar arian cyhoeddus ar gyfer nwyddau cyhoeddus, wobrwyo ffermwyr ar gyfer y buddion bywyd gwyllt ac amgylcheddol sy'n deillio o arferion ffermio amaethecolegol.

Mae **Addysg** yn ganolog, oherwydd bydd cyngor, arweiniad a rhannu gwybodaeth yn hollbwysig i helpu ffermwyr i bontio i systemau ffermio amaethecolegol. Hefyd gall hyn helpu adnabod bylchau mewn sgiliau a chynhyrchiant.

Cynhelir arolygon blynyddol o fywyd gwyllt a phlanhigion ar y fferm, sydd yn ei dro'n helpu hysbysu arferion rheoli sy'n gallu helpu ffermdir i adfer o safbwynt natur. Dylid adrodd ar brosesau monitro ac **archwilio** mewn ffordd dryloyw trwy Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR), a thrwy hynny hyrwyddo atebolrwydd y llywodraeth ar gyfer adfer natur.

Tudalen 10

O brofiad Fferm Slade, gall sicrhau trefniadau gorfodi priodol ac effeithiol o waelodlin a rheoliadau amgylcheddol cadarn, arwain at ganlyniadau cadarnhaol o safbwynt natur a'r amgylchedd.

Bwyd Môr Cynaliadwy

Dylai polisïau pysgodfeydd Cymru yn y dyfodol ganolbwyntio ar gynaliadwyedd a gwireddu amcanion [Deddf Pysgodfeydd y DU](#). Yn 2015, roedd [53% o stociau pysgod y môr \(cwota\) o ddiddordeb i'r DU, yn cael eu pysgota ar lefelau cynaliadwy neu is](#), tra bo'r rhan fwyaf o stociau pysgod cregyn cenedlaethol naill ai heb gyrraedd Statws Amgylcheddol Da neu mae'r statws yn ansicr. Dylai polisïau'r dyfodol gydnabod yr angen i reoli pysgodfeydd yn nyfroedd Cymru mewn ffordd gynaliadwy.

Bydd **archwiliad** yn hanfodol i wireddu'r nod yma, a seilir ar wyddoniaeth y pysgodfeydd, i ddelio gyda bylchau tystiolaeth lle mae ansicrwydd ynghylch statws stociau pysgod yn nyfroedd Cymru. Dylai Llywodraeth Cymru fod yn **atebol** am ddyrannu cyfleoedd pysgota (cwota newydd neu fecanwaith cyllido) a seilir ar feini prawf cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol tryloyw sy'n annog arferion pysgota cynaliadwy.



Hefyd dylai'r llywodraeth hwyluso a **buddsoddi** mewn arloesi ar gyfer technoleg monitro newydd i sicrhau y caiff gweithgareddau pysgota eu cofnodi'n llawn er mwyn hysbysu'r dulliau rheoli mewn ffordd effeithiol. Ar y cyd â CNC dylai'r Llywodraeth gwblhau [Prosiect Asesu Gweithgareddau Pysgodfeydd Cymru](#) fydd yn gwerthuso effaith pysgodfeydd ar ardaloedd morol a warchodir, a chadarnhau a oes angen unrhyw gamau rheoli.

Swyddi a Bywoliaethau Cynaliadwy yn y Sector Bwyd

Mae'n rhaid i berchnogion busnesau ffermio dderbyn cyflog teg am eu cynnyrch, sy'n ystyried yn ddigonol y gwir gost o gynhyrchu ar sail gynaliadwy; tra dylid talu cyflog teg i, a thrin gweithwyr fferm a gweithwyr yn y gadwyn fwyd byd-eang mewn ffordd deg. Mae eu gwaith nhw ymhlith y swyddi yn y perygl mwyaf a gyda'r gwerth lleiaf, ac amcangyfrifir fod rhyw 6,700 ohonynt ar draws y DU [yn derbyn cyflog llai na'r isafswm cyflog](#).



Mae COVID-19 wedi dangos pa mor hanfodol yw gweithwyr y sector bwyd, tra bo diffyg diogelwch i weithwyr, cytundebau gwaith bregus gyda chyflog isel a diffyg tâl salwch, yn golygu ei fod yn amhosib i lawer ohonynt ddiogelu eu hunain. Mae achosion o'r feirws mewn ffatrioedd pecynnu cig wedi [tynnu sylw](#) at effaith amodau gweithio isel yma a thramor.

Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau y caiff rheolau llafur ac lechyd a Diogelwch eu **gorfodi** a dylai ymgynghori â gweithwyr ar sut i rymuso a'u diogelu nhw. Dylid defnyddio'r [Contract Economaidd](#) i fynnu safonau mewn perthynas â'r ffordd o drin gweithwyr yng Nghymru, y DU ac yn rhyngwladol, gan gwmnïau sy'n cyflenwi'r sector cyhoeddus.

Ymhlith enghreifftiau o arfer orau a dulliau gwaith **arloesol**, mae cwmnïau megis [Real Seeds](#), busnes hadau llysiau amaetholegol yn Nhrefdraeth, Sir Benfro, sy'n talu cyflog teg i weithwyr am gyflawni gwaith arwyddocaol. Mae pob gweithiwr yn derbyn yr un cyflog, sef £15 yr awr ar hyn o bryd, ynghyd â bonws a seilir ar gyfrandaliadau ar ddiwedd y tymor, gyda'r gwaith amrywiol yn cyfrannu at gyfoethogi ecosystemau trwy annog yr arfer o gadw hadau.

Wrth ymateb i argyfwng COVID, newidiodd y cwmni'r patrymau gweithio a chyflwynwyd arferion glanhau llym i sicrhau diogelwch a phellter diogel i'r gweithwyr. Dylai Llywodraeth Cymru hyrwyddo a chefnogi cwmnïau megis Real Seeds fel enghreifftiau o gyflogwr cyfrifol sy'n darparu 'gwaith da' i'w weithwyr.

Mae Cynghrair Polisi Bwyd Cymru yn gyfuniad o sefydliadau a rhanddeiliaid sy'n meithrin ac yn hyrwyddo gweledigaeth gyfunol ar gyfer system fwyd Cymru.



Sustainable Places
Research Institute
Sefydliad Ymchwil
Mannau Cynaliadwy

Rhwydwaith
Ffermio
er Lles
Natur



Nature
Friendly
Farming
Network



OXFAM

SLADE FARM
ORGANICS.COM



Comisiwn
Bwyd, Ffermio
a Chefn Gwlad



Food, Farming
& Countryside
Commission



yn rhoi
cartref i
fyd natur
giving
nature
a home
Cymru



Trwy gydweithio, ymgysylltu ac ymchwil, nod y Gynghrair yw:

- Cydgynhyrchu gweledigaeth ar gyfer system fwyd yng Nghymru sy'n cysylltu cynhyrchiant, cyflenwad a defnydd ac yn ystyried iechyd a llesiant pobl a natur yn gydradd
- Eirioli dros newid polisi i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd ac ecolegol, yr argyfwng mewn iechyd cyhoeddus a'r cynnydd mewn diffyg diogelwch o safbwynt bwyd.
- Sicrhau cysylltiad rhwng Cymru â pholisi a chyfleoedd ymchwil y DU, a'r system byd eang ehangach.

#AilFeddwlBwydCymru